Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Delio ag achosion amddiffyn plant trawsffiniol

## Canllawiau "camau allweddol" i awdurdodau lleol, Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru

**Mis Hydref 2021**

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43332 ISBN digidol 978-1-80391-054-3

# DELIO AG ACHOSION AMDDIFFYN PLANT TRAWSFFINIOL: CANLLAWIAU "CAMAU ALLWEDDOL" I AWDURDODAU LLEOL, BYRDDAU IECHYD AC YMDDIRIEDOLAETHAU'R GIG YNG NGHYMRU

## YNGLŶN Â'R CYNGOR HWN

Rhoddir y cyngor hwn gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'n statudol, a'i brif ddiben yw helpu Awdurdodau Lleol i ddelio ag achosion amddiffyn plant trawsffiniol o dan Gonfensiwn yr Hag 1996.[1] Ymhellach, bwriedir i'r cyngor hwn helpu Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG y gall fod angen iddynt roi gwybodaeth mewn perthynas â'r achosion hyn.

Gweinidogion Cymru yw'r Awdurdod Canolog ar gyfer darpariaethau cydweithredu'r Confensiwn mewn perthynas â Chymru.

Mae modd ymgynghori ag Awdurdod Canolog Cymru ynglŷn â'r mater hwn. Ceir manylion cyswllt yn Adran 4.

Mae'r cyngor hwn yn nodi'r camau allweddol y gall Awdurdodau Lleol eu cymryd i ofyn am help neu wybodaeth hanfodol gan awdurdodau tramor wrth ddelio, er enghraifft, â phlentyn o'r wlad hon sydd angen cymorth neu y mae angen ei amddiffyn. Mae'r cyngor hwn hefyd yn anelu at nodi sut dylai Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ymateb i geisiadau tebyg a gânt gan awdurdodau tramor.

Mae Llywodraeth Cymru yn glir y dylai egwyddorion diogelu plant fod yr un peth ar draws ffiniau rhyngwladol a bod yn rhaid i bob penderfyniad gael ei wneud er budd pennaf y plentyn.

Yn Adran 1 rhoddir trosolwg o'r trefniadau cydweithredu rhwng gwladwriaethau contractio.

Yn Adran 2 rhoddir cyngor ynghylch gofyn am wybodaeth gan Wladwriaethau contractio eraill neu ofyn iddynt weithredu, a bydd o ddiddordeb i Awdurdodau Lleol yn bennaf.

Yn Adran 3 rhoddir cyngor ynghylch delio â cheisiadau gan Wladwriaethau contractio eraill, a bydd yn berthnasol i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.

## PWYNTIAU ALLWEDDOL

- Mae'r Confensiwn yn berthnasol i sefyllfaoedd lle mae angen i wladwriaethau contractio gydweithredu ar achosion o amddiffyn plant a lles plant pan fo yna ddimensiwn rhyngwladol. Gall hyn gynnwys achosion gofal, achosion cyswllt a lleoliadau maeth dramor.

[1] Confensiwn yr Hag 1996 ar Awdurdodaeth, y Gyfraith Gymwys, Cydnabyddiaeth, Gorfodaeth a Chydweithrediad mewn perthynas â Chyfrifoldeb Rhieni a Mesurau Diogelu Plant.

- Nod y Confensiwn yw sicrhau bod gwledydd yn cydweithredu’n well fel bod y gwaith o ddelio ag achosion ac amddiffyn plant yn fwy effeithlon, yn osgoi unrhyw oedi ac yn arwain at well canlyniadau i’r plant dan sylw.

- Mae’r cyngor hwn ar wahân i’r canllawiau sydd eisoes i’w cael ynghylch y prif fathau eraill o achosion trawsffiniol – gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â mabwysiadu trawswladol a chan yr Adran Addysg mewn perthynas â herwgydio plant.

- Mae Confensiwn 19 Hydref 1996 ar Awdurdodaeth, y Gyfraith Gymwys, Cydnabyddiaeth, Gorfodaeth a Chydweithrediad mewn perthynas â Chyfrifoldeb Rhieni a Mesurau Diogelu Plant (Confensiwn Diogelu Plant 1996 HCCH) yn gytuniad amlochrog sy’n delio ag ystod eang o fesurau sifil i amddiffyn plant mewn sefyllfaoedd trawsffiniol. Mae’r Confensiwn yn darparu rheolau unffurf sy’n atal penderfyniadau anghyson, yn galluogi cydweithredu trawsffiniol rhwng awdurdodau, ac yn sicrhau bod mesurau’n cael eu cydnabod a’u gorfodi ymhlith Partïon Contractio.

- Ceir rhestr o’r gwledydd hynny (sef y ‘gwladwriaethau contractio’) ar wefan Cynhadledd yr Hag ar Gyfraith Ryngwladol Breifat.

# ADRAN 1: Trosolwg o'r trefniadau cydweithredu

## Mathau o drefniadau

1.1 Dan y Confensiwn, gall gwladwriaethau contractio ofyn i'w gilydd am wybodaeth neu fath arall o help pan fo yna faterion amddiffyn plant a phan fydd lles plentyn mewn perygl. Nodir y gwahanol fathau o geisiadau yn adrannau 2 a 3 y canllawiau hyn, ond maent yn cynnwys, er enghraifft:

- gofyn am help gwladwriaeth arall i ddod o hyd i blentyn
- gofyn am adroddiad ar blentyn sy'n 'preswylio fel arfer'[2] mewn gwladwriaeth gontractio arall
- gofyn i wladwriaeth arall gymryd camau i amddiffyn lles plentyn
- gofyn i wladwriaeth arall gytuno i blentyn gael ei leoli yno mewn gofal maeth neu ofal preswyl
- gofyn i 'awdurdodaeth' plentyn gael ei throsglwyddo o'i wladwriaeth gartref, gan alluogi awdurdod i wneud penderfyniadau ynghylch lles plentyn os yw o'r farn mai ef sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny.

1.2 Ymhellach, efallai y bydd rhiant yn gofyn i Awdurdodau Lleol baratoi adroddiad ar ei addasrwydd i fod mewn cysylltiad â phlentyn sy'n byw mewn gwladwriaeth arall.

## Sut mae'r trefniadau cydweithredu yn gweithio

### Yr Awdurdod Canolog

1.3 Mae Confensiwn yr Hag 1996 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob Gwladwriaeth Gontractio sefydlu Awdurdod Canolog er mwyn helpu i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng awdurdodau lles plant mewn gwladwriaethau contractio.

1.4 Gweinidogion Cymru fydd Awdurdod Canolog Cymru, a byddant yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau dan y Confensiwn. Bydd Awdurdodau Canolog gwahanol i'w cael ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i wladwriaethau contractio oddi allan i'r DU gysylltu ag Awdurdod Canolog Lloegr yn gyntaf, ac yna bydd yr Awdurdod Canolog hwnnw'n trosglwyddo'r cais i'r Awdurdod Canolog perthnasol o fewn y DU, fel bo'r angen.

1.5 Rhaid i rai mathau o geisiadau gael eu gwneud trwy Awdurdodau Canolog, tra mewn rhai achosion gall Awdurdodau Lleol ddelio'n uniongyrchol â'u cymheiriaid tramor. Ceir rhagor o gyngor ynghylch y mater hwn yn adrannau 2 a 3. Fodd bynnag, argymhellir y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori ag Awdurdod Canolog Cymru yn gyntaf i gael cyngor ynglŷn â'r ffordd fwyaf priodol o wneud eu cais. Nodir sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol yn y ddogfen hon.

1.6 Mae Awdurdod Canolog Cymru hefyd yn monitro nifer ac effeithiolrwydd yr achosion yr eir i'r afael â nhw dan y Confensiwn. Os bydd Awdurdodau Lleol yn penderfynu delio'n uniongyrchol â'u cymheiriaid mewn gwladwriaethau contractio eraill,

---

[2] Ceir rhagor o wybodaeth am y termau 'awdurdodaeth' a 'man preswylio arferol/preswylio fel arfer' yn yr adran Holi ac Ateb ar dudalen 26.

argymhellir y dylent hysbysu'r Awdurdod Canolog er mwyn iddo allu creu darlun mor gyflawn â phosibl.

Amseru – Mae'n ofynnol i'r llofnodwyr gydweithredu a chyflwyno gwybodaeth mewn modd amserol. Fodd bynnag, nid yw'r Cytuniad yn drech na chyfreithiau domestig, ac ni cheir unrhyw derfynau amser yng Nghonfensiwn yr Hag 1996 ar gyfer ymateb i gais i gydweithredu.

1.7 Ceir asiantaethau eraill hefyd a all gynnig cyngor a chymorth ymarferol ynghylch delio ag achosion trawsffiniol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Children and Families Across Borders (CFAB)
- Africans Unite Against Child Abuse (AFRUCA)
- Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC Cymru)

Gweler tudalen 29 i gael rhagor o wybodaeth am y sefydliadau hyn.

## Trefniadau a chyfrifoldebau Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

1.8 Er bod y Rheoliadau sy'n ategu'r Confensiwn yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i ymateb mewn modd amserol i rai mathau o geisiadau, ni phennir y ffordd y dylid ymateb. I'r graddau y bo'n bosibl, dylai asiantaethau ddilyn eu gweithdrefnau lleol presennol ar sail ymateb cymesur i'r risg o niwed i'r plentyn.

1.9 Caiff Awdurdodau Lleol eu hannog i gytuno ar bwynt cyswllt cyntaf er mwyn rheoli unrhyw gyfathrebu rhwng yr Awdurdod Canolog a staff rheng flaen perthnasol a rhoi'r manylion cyswllt i'r Awdurdod Canolog. Awgrymir y dylai unrhyw un a enwebir fod mewn rôl ddigon uchel i wneud penderfyniadau ynghylch camau gweithredu mewn achosion rhyngwladol ac y dylid sicrhau bod rhywun arall ar gael wrth gefn i ddelio'n brydlon â cheisiadau brys. Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Benaethiaid Gwasanaethau Plant pob Awdurdod Lleol yng Nghymru i bennu cyswllt cyntaf. Pennwyd enwau cyswllt hefyd mewn Byrddau Iechyd ac yn Ymddiriedolaethau'r GIG.

## Cysylltiadau â Chonfensiynau eraill yr Hag

1.10 Mae fframwaith tebyg iawn ar gyfer cydweithredu ar achosion o amddiffyn plant rhwng aelod-wladwriaethau'r UE eisoes yn bodoli trwy Reoliad Cygnor yr UE sef 'IIa Brwsel'. [3] Er nad yw'r DU yn rhan o'r trefniadau hyn bellach, ysbrydolwyd lla Brwsel yn bennaf gan ddarpariaethau Confensiwn yr Hag 1996, ac mae'r ddau offeryn yn debyg iawn. Mae Confensiwn yr Hag wedi bod mewn grym yn y DU ers mis Tachwedd 2012. Fodd bynnag, mae'n bosibl ei fod wedi cael ei ddefnyddio'n llai eang na lla Brwsel, oherwydd rhoddwyd blaenoriaeth i'r olaf yn hytrach nag i Gonfensiwn yr Hag 1996 yng nghyswllt plant sy'n preswylio fel arfer ar diriogaeth aelod-wladwriaeth yr UE. O'r herwydd, mae colli lla Brwsel yn y DU yn golygu y bydd Confensiwn yr Hag 1996 yn awr yn cael ei ddefnyddio'n ehangach nag o'r blaen. Nid yw Confensiwn yr Hag 1996 yn cynnwys cysyniadau na

[3] **Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2201/2003 dyddiedig 27 Tachwedd 2003 ynghylch awdurdodaeth a chydnabod a gorfodi dyfarniadau mewn materion priodasol a materion cyfrifoldeb rhieni.**

threfniadau sylweddol wahanol ar gyfer Awdurdodau Lleol o'i gymharu â IIa Brwsel – mae'n adeiladu ar bwerau a dyletswyddau presennol, gan ymestyn y rhain i gwmpasu cysylltiadau â'r nifer cynyddol o wledydd y tu hwnt i Ewrop sydd wedi rhoi'r Confensiwn ar waith.

1.11 Mae Confensiwn yr Hag 1996 yn wahanol i Gonfensiwn yr Hag 1980 ar Agweddau Sifil Herwgydio Plant yn Rhyngwladol a Chonfensiwn yr Hag 1993 ar Ddiogelu Plant a Chydweithrediad mewn perthynas â Mabwysiadu Trawswladol 1993.

**ADRAN 2: Gofyn i wladwriaethau contractio eraill am wybodaeth neu ofyn iddynt weithredu.**

2.1 Mae'r Adran hon yn egluro fesul cam sut gall Awdurdodau Lleol ofyn am help a chydweithrediad gan wladwriaethau contractio eraill.

2.2 Mae'r Confensiwn yn galluogi Awdurdod Lleol i wneud y canlynol:

i) gofyn i wladwriaeth arall gyflwyno adroddiad/gwybodaeth er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch pa fesurau amddiffyn plant y dylid eu cymryd[4]

ii) cymryd camau i amddiffyn plentyn sy'n wynebu risg uniongyrchol o niwed, hyd yn oed os yw'r plentyn yn preswylio fel arfer mewn gwladwriaeth gontractio arall[5]

iii) gwneud cais i'r llys yn gofyn i wladwriaeth gontractio arall drosglwyddo awdurdodaeth plentyn os bydd Awdurdod Lleol o'r farn ei fod mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau ynglŷn â lles y plentyn hwnnw[6]

iv) ymgynghori â'r awdurdod perthnasol mewn gwladwriaeth arall ynghylch lleoli plentyn mewn gofal maeth neu ofal preswyl yn y wladwriaeth honno[7]

v) gofyn am help i ddod o hyd i blentyn mewn gwladwriaeth gontractio os bydd Awdurdod Lleol yn poeni am ei les[8]

vi) gofyn i wladwriaeth arall ystyried cymryd camau i amddiffyn plentyn sy'n byw yn y wladwriaeth honno[9]

vii) cyflwyno adroddiad i ategu achos rhiant dros gael cyswllt â phlentyn sy'n byw mewn gwladwriaeth gontractio arall.[10]

Ymhellach, mae'r Confensiwn yn *mynnu* y dylai awdurdodau cymwys (ee awdurdodau lleol) wneud y canlynol:

i. ymgynghori â'r awdurdod perthnasol mewn gwladwriaeth arall ynglŷn â rhoi plentyn mewn gofal maeth neu ofal preswyl yn y wladwriaeth honno.
ii. hysbysu'r awdurdodau perthnasol pan fydd plentyn sydd wedi dod i gysylltiad â 'pherygl difrifol' yn y DU yn teithio i wladwriaeth arall (yn cynnwys gwladwriaethau nad ydynt yn Wladwriaethau Contractio).

---

[4] Erthygl 34
[5] Erthygl 11
[6] Erthygl 8
[7] Erthygl 23
[8] Erthygl 31(c)
[9] Erthygl 32(b)
[10] Erthygl 35(2)

**Gofyn am adroddiad/gwybodaeth gan wladwriaeth arall i ategu penderfyniadau ynghylch yr angen am fesurau amddiffyn plant**

2.3 Os bydd Awdurdod Lleol yn ystyried cymryd camau i amddiffyn neu ddiogelu plentyn, gall ofyn i Awdurdod Cymwys (unrhyw unigolyn neu sefydliad y rhoddwyd awdurdod, capasiti neu bŵer dirprwyedig neu gyfreithiol iddo i gyflawni swyddogaeth ddynodedig) mewn gwladwriaeth gontractio arall gyflwyno unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ganddo ynglŷn â'r achos, ni waeth ble mae'r plentyn yn preswylio fel arfer.[11] Fodd bynnag, argymhellir y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori ag Awdurdod Canolog Cymru yn gyntaf i gael cyngor ynglŷn â'r ffordd fwyaf priodol o wneud eu cais.


2.4 Os bydd Awdurdod Lleol yn pryderu am les plentyn sy'n byw dros dro yn ei ardal neu'n ymweld dros dro â'i ardal, gall ofyn i brif wlad breswylio'r plentyn am adroddiad ar ei sefyllfa – gweler siart 1 am y broses a argymhellir ar gyfer hyn.

2.5 Dan y Confensiwn, ni ddylai'r awdurdod yn y wladwriaeth gontractio gyflwyno'r fath adroddiad os yw o'r farn y byddai gwneud hynny'n rhoi'r plentyn neu ei eiddo mewn perygl, neu'n bygwth bywyd neu ryddid aelod o deulu'r plentyn. Os bydd Awdurdod Lleol yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar yr wybodaeth angenrheidiol, efallai y bydd modd i'r Awdurdod Canolog helpu trwy gydweithio ag Awdurdod Canolog y wladwriaeth arall.

2.6 Gall gwladwriaeth gontractio nodi bod yn rhaid i'r ceisiadau hyn am wybodaeth (a wneir dan Erthygl 34 o'r Confensiwn) fynd trwy ei Hawdurdod Canolog. Gallwch weld a yw'r wlad y mae angen i chi gysylltu â hi wedi nodi hyn trwy edrych ar y golofn 'Cymalau Cadw/Datganiadau' ar gyfer y wlad honno yn Nhabl Statws Confensiwn yr Hag, sydd ar gael ar wefan Cynhadledd yr Hag.

[11] Erthygl 34

**Siart 1 – gofyn am adroddiad i ategu penderfyniadau ynghylch yr angen am fesurau amddiffyn plant**



**Gweithredu yn achos plentyn sydd mewn perygl uniongyrchol o niwed pan fydd fel arfer yn byw mewn gwladwriaeth gontractio arall**

2.7 Os bydd Awdurdod Lleol yn nodi bod angen amddiffyn plentyn ar unwaith, rhaid iddo gyflawni ei ddyletswyddau i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn hwnnw o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Plant 1989. Mewn achosion brys, mae'r Confensiwn yn nodi y gall awdurdodau'r Wladwriaeth Gontractio y mae'r plentyn ynddi gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i amddiffyn y plentyn hyd nes y bydd yr awdurdodau yn y wladwriaeth y mae'r plentyn yn preswylio ynddi fel arfer wedi cymryd unrhyw gamau angenrheidiol.[12] Ni ddylai'r elfen ryngwladol sy'n perthyn i'r achos beri oedi o ran cymryd y camau amddiffyn angenrheidiol.

2.8 Os mai dros dro yn unig y mae'r plentyn yn y DU, mae'n debygol mai gwlad gartref y plentyn fydd â phrif awdurdodaeth, a bydd yr awdurdod priodol yno yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch lles y plentyn a sut dylid ei amddiffyn y tu hwnt i'r camau uniongyrchol neu'r camau dros dro a gymerir. Fodd bynnag, gellir trosglwyddo awdurdodaeth o'r wladwriaeth y mae'r plentyn yn preswylio ynddi fel arfer (dan Erthyglau 8 a 9). Yn achos plant sy'n ffoaduriaid, plant sy'n ceisio lloches neu blant sydd wedi'u dadleoli oherwydd trafferthion yn eu gwlad, efallai y bydd y brif awdurdodaeth yn seiliedig ar bresenoldeb corfforol y plentyn mewn Gwladwriaeth Gontractio. Mae hyn hefyd yn berthnasol pan na fydd modd canfod y wlad y mae'r plentyn yn preswylio ynddi fel arfer.

2.9 Pan fo risg uniongyrchol o niwed (oni bai bod y plentyn yn ceisio lloches, wedi'i ddadleoli neu'n ffoadur), ar ôl i gamau gael eu cymryd i amddiffyn y plentyn dylai'r Awdurdod Lleol gysylltu â'r awdurdod perthnasol yng ngwlad gartref y plentyn i roi gwybod iddo am y camau a gymerwyd, i ofyn am wybodaeth ynglŷn ag amgylchiadau'r plentyn ac i gytuno ar ba gamau pellach y mae angen eu cymryd. Mae Siart 2 yn nodi'r broses a argymhellir ar gyfer achosion o'r fath. Argymhellir y dylid cysylltu ag Awdurdod Canolog Cymru i ddechrau – er, yn yr achosion hyn, gellir cysylltu trwy gyfrwng yr Awdurdod Canolog neu gysylltu'n uniongyrchol â'r hyn sy'n cyfateb i Awdurdod Lleol yn y wladwriaeth arall. Dylai Awdurdod Canolog y wladwriaeth arall allu rhoi gwybodaeth am weithdrefnau amddiffyn plant y wladwriaeth honno, ac efallai y bydd modd iddo roi'r manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod cyfatebol priodol.

2.10 Os bydd angen i'r plentyn barhau i gael ei amddiffyn tra bydd yr Awdurdod Lleol mewn cyswllt â'r awdurdod yn y wladwriaeth arall, mae Rheoliadau Cyfrifoldeb Rhieni a Mesurau Amddiffyn Plant (Rhwymedigaethau Rhyngwladol) (Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon) 2010[13] yn nodi y gellir gwneud cais am orchymyn gofal neu orchymyn goruchwylio interim, er y disgwylir i wladwriaeth arall ysgwyddo'r awdurdodaeth cyn y bydd angen gorchymyn terfynol.[14] O dan Gonfensiwn yr Hag 1996, mae modd i gamau diogelu brys a gymerir dan Erthygl 11 gael eu cydnabod a'u gorfodi mewn Gwladwriaeth Gontractio arall. Gall hyn helpu i sicrhau y bydd modd i blentyn ddychwelyd yn ddiogel i'r wladwriaeth y mae'n preswylio ynddi fel arfer.

[12] Erthygl 11
[13] Offeryn Statudol 2010 Rhif 1898
[14] Rheoliad 5


**Trosglwyddo awdurdodaeth**

2.11 Gall Awdurdod Lleol yng Nghymru geisio trosglwyddo awdurdodaeth ar gyfer plentyn sy'n preswylio fel arfer mewn gwladwriaeth arall os yw o'r farn ei fod mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau ynglŷn â lles y plentyn hwnnw.[15] Gwneir hyn ar ffurf cais i'r Uchel Lys. Yna, bydd yr Uchel Lys yn cyflwyno'r cais i wlad gartref y plentyn os yw hynny'n briodol.[16]

2.12 Gall yr awdurdod yng ngwlad gartref y plentyn ofyn am i'r awdurdodaeth gael ei throsglwyddo i'r DU, a than ofal Awdurdod Lleol yng Nghymru[17] - gweler tudalen 22. Mae Awdurdod Canolog Cymru yn anelu at gadw cofnod o bob achos o drosglwyddo awdurdodaeth, ac felly gofynnir i Awdurdodau Lleol hysbysu'r Awdurdod Canolog pan gaiff trefniadau o'r fath eu gwneud.

[15] Erthygl 9
[16] Rheoliad 4
[17] Erthygl 8

## Siart 2 – Gweithredu yn achos plentyn sydd mewn perygl uniongyrchol



**Lleoli plentyn sy'n byw yng Nghymru mewn gofal maeth neu ofal preswyl mewn gwladwriaeth gontractio arall.**

2.12 Os oes yna fwriad i blentyn fyw dramor, gan ddibynnu ar y math o leoliad, efallai y bydd angen cael caniatâd gan Awdurdod Cymwys tramor ar gyfer y lleoliad cyn i'r plentyn symud. Er mwyn cael y caniatâd hwn, bydd yn rhaid i'r Awdurdod Lleol anfon adroddiad at yr Awdurdod Cymwys yn nodi'r rhesymau dros y lleoliad. Mae hi'n bwysig cael y caniatâd hwn pan fo angen; os methir â'i gael, efallai y bydd yr awdurdod tramor yn gwrthod cydnabod y gorchymyn a fydd yn rhoi'r lleoliad mewn grym.

Mae Confensiwn yr Hag 1996 yn nodi y bydd hi'n ofynnol cael caniatâd pan fo awdurdod yn ystyried lleoli plentyn gyda theulu maeth neu mewn gofal sefydliadol, neu ddarparu gofal trwy system kafala neu sefydliad cyfatebol mewn Gwladwriaeth Gontractio arall.

Nid yw'r Confensiwn yn nodi'n fanwl sut fathau o leoliadau a ddaw o fewn cwmpas y ddarpariaeth hon, ond gallant gynnwys y sefyllfaoedd canlynol:

- mae Awdurdod Lleol o'r farn mai gyda theulu neu unigolion cysylltiedig eraill mewn gwladwriaeth arall y mae hi'n fwyaf priodol lleoli'r plentyn
- efallai y bydd gofalwr maeth plentyn am symud dramor, ac mae'r Awdurdod Lleol o'r farn mai aros gyda'r gofalwr hwnnw sydd orau i'r plentyn
- efallai y bydd angen i blentyn gael ei leoli mewn uned breswyl arbenigol mewn gwlad arall.

2.13 Os bydd Awdurdod Lleol yn dymuno gwneud trefniadau i blentyn dan ei ofal (h.y. plentyn sy'n destun gorchymyn gofal neu orchymyn gofal interim) fyw y tu allan i Gymru a Lloegr, rhaid iddo wneud cais i'r llys am ganiatâd i leoli'r plentyn y tu allan i'w awdurdodaeth yn unol â pharagraff 9 Atodlen 2 o Ddeddf Plant 1989. Os yw'r plentyn yn destun a20, ni fydd angen cael caniatâd y Llys, ond rhaid i'r awdurdod gael caniatâd pob unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn cyn ei leoli dramor.[18]

2.14 Dan y Confensiwn, rhaid i Awdurdod Lleol sy'n ystyried y math hwn o leoliad ymgynghori â'r Awdurdod Canolog neu awdurdod cymwys arall yn y wladwriaeth y mae'r cais yn berthnasol iddi. Rhaid i'r Awdurdod Lleol gyflwyno adroddiad ar y plentyn a nodi'r rhesymau dros y cynnig. Dim ond os yw'r Awdurdod Canolog, neu awdurdod cymwys arall yn y wladwriaeth y mae'r cais yn berthnasol iddi, wedi caniatáu'r lleoliad neu'r ddarpariaeth gofal, gan ystyried budd pennaf y plentyn, y gellir gwneud penderfyniad ynglŷn â'r lleoliad.[19]

2.15 Ni cheir unrhyw fformat penodedig ar gyfer gwneud y ceisiadau hyn. Efallai y bydd llythyr yn ddigon, neu os oes angen adroddiad manylach, byddai fformat tebyg i'r hyn a ddefnyddir i ymateb i geisiadau Llys am adroddiadau dan a7 (adroddiad lles) neu a37 (cyfarwyddyd Llys i ymchwilio i amgylchiadau plentyn ac ystyried a ddylid gwneud cais am orchymyn gofal neu orchymyn goruchwylio) o Ddeddf Plant 1989 yn briodol. Bydd gan Awdurdodau Lleol fformatau ar gyfer yr adroddiadau hyn ar eu systemau cofnodi electronig eisoes.

2.16 Awgrymir y byddai Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Plentyn, adroddiad asesu Gofalwr

[18] Paragraff 19 Atodlen 2 o Ddeddf Plant 1989
[19] Erthygl 33

Maeth neu unrhyw adroddiad cyfatebol yn cynnwys digon o wybodaeth at y diben hwn, felly ni fydd angen creu ffurflen adrodd newydd. Gellir cysylltu ag Awdurdod Canolog y wladwriaeth y cynigir lleoli'r plentyn ynddi, neu gellir cysylltu ag awdurdod cymwys. Argymhellir y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori ag Awdurdod Canolog Cymru yn gyntaf er mwyn cael cyngor ynglŷn â'r ffordd fwyaf priodol o weithredu. Mae Siart 3 yn nodi'r broses a argymhellir ar gyfer gwneud y math hwn o gais.


2.17 Hefyd, rhaid i'r Awdurdod Lleol gyflawni'r dyletswyddau a nodir yn Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007, Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007 a Rhan 3 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 wrth leoli plentyn mewn gofal y tu allan i Gymru a Lloegr, gan sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i oruchwylio ac adolygu'r lleoliad.

2.18 Nid yw'r rhan hon o'r Confensiwn yn berthnasol i leoliadau mabwysiadu (llywodraethir y rhain gan Gonfensiwn yr Hag 1993 ar Fabwysiadu Trawswladol).

2.19 Fodd bynnag, bydd yn berthnasol i leoli plentyn mewn gofal at ddibenion asesu mewn lleoliad mabwysiadu posibl (fel yr ystyrir yn Parthed A (Plentyn) [2009] EWCA Civ 41 lle, er mwyn osgoi torri'r cyfyngiadau ar leoli plentyn dramor at ddibenion mabwysiadu, rhaid i'r lleoliad gael ei nodi'n glir fel lleoliad maethu). Os caiff lleoliad o'r fath ei ystyried, dylai'r Awdurdod Lleol gyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru

https://llyw.cymru/canllawiau-mabwysiadu-trawswladol

**Siart 3 – Lleoli plentyn sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd mewn gofal maeth neu ofal preswyl mewn gwladwriaeth gontractio arall**



**Gofyn i wladwriaeth arall ddod o hyd i blentyn**

2.20 Os yw Awdurdod Lleol wedi cymryd camau i ddiogelu lles plentyn (neu os yw'n bwriadu gwneud hynny), ac os yw'n credu bod y plentyn wedi'i symud o ardal yr Awdurdod Lleol i wladwriaeth gontractio arall, mae'r Confensiwn yn galluogi'r Awdurdod Lleol i ofyn i wladwriaeth gontractio arall am help i ddod o hyd i'r plentyn; er, argymhellir y dylai Awdurdod Canolog Cymru gael gwybod hefyd. Mae Siart 4 yn nodi'r broses ar gyfer y math hwn o gais.

2.21 Dylid cyflwyno'r ceisiadau hyn i Awdurdod Canolog y wladwriaeth y credir bod y plentyn wedi symud iddi,[20] gan egluro amgylchiadau'r plentyn a chynnwys unrhyw wybodaeth a allai helpu'r wladwriaeth arall i ddod o hyd i gyfeiriad y plentyn.

2.22 Os yw'r plentyn yn preswylio fel arfer yng Nghymru neu Loegr, ac os oes achos llys yn dechrau neu'n mynd rhagddo, gall y llys ofyn i'r awdurdodau yn y wladwriaeth arall dybio awdurdodaeth dros y plentyn os ymddengys eu bod mewn sefyllfa well i wneud hynny (gweler paragraff 2.11).


2.23 Os oes yna bryderon difrifol ynglŷn â phlentyn yn cael niwed sylweddol, ac os caiff y plentyn hwn ei symud i wladwriaeth arall, rhaid i'r Awdurdod Lleol hysbysu'r awdurdodau perthnasol yn y wladwriaeth arall honno ynghylch y perygl i'r plentyn hwnnw, gan roi gwybod iddynt hefyd pa gamau yr oedd wrthi'n eu cymryd neu'n ystyried eu cymryd i ddiogelu'r plentyn.[21] Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os yw'r plentyn wedi symud i wladwriaeth nad yw'n Wladwriaeth Gontractio.

**Gofyn i wladwriaeth arall ystyried cymryd camau i amddiffyn plentyn sy'n preswylio fel arfer yn y wladwriaeth honno.**

2.24 Mae'r Confensiwn yn galluogi Awdurdod Lleol i ofyn i wladwriaeth gontractio arall gymryd camau i amddiffyn rhag niwed unrhyw blentyn sy'n preswylio fel arfer yn y wladwriaeth honno.[22] Dylai Awdurdodau Lleol roi digon o wybodaeth i'r awdurdod yn y wladwriaeth arall er mwyn ei alluogi i wneud penderfyniad. Gellir gwneud y cais hwn trwy Awdurdod Canolog Cymru neu'n uniongyrchol i'r Awdurdod Canolog yn y wladwriaeth arall (er, argymhellir y dylai Awdurdodau Lleol hysbysu Awdurdod Canolog Cymru fan leiaf ynglŷn ag unrhyw geisiadau a wneir). Gall yr Awdurdod Canolog yn y wladwriaeth honno ofyn i'w awdurdod cymwys ystyried yr angen i gymryd camau amddiffyn, ond nid oes yn rhaid i'r awdurdod wneud hynny.

[20] Erthygl 31(c)
[21] Erthygl 36
[22] Erthygl 32

**Siart 4 – gofyn i Awdurdod Canolog mewn gwladwriaeth arall**



**Cyflwyno adroddiad i ategu achos rhiant dros gael cyswllt â phlentyn sy'n byw mewn gwladwriaeth gontractio arall**

2.25 Os bydd rhiant yng Nghymru yn defnyddio achos llys neu awdurdod gweinyddol i sefydlu neu gynnal cyswllt â phlentyn sy'n byw y tu allan i'r DU mewn gwladwriaeth gontractio arall, gall yr unigolyn hwnnw ofyn i'w Awdurdod Lleol baratoi adroddiad ar ei addasrwydd i gael y fath gyswllt, fel y gall gynnwys yr adroddiad hwnnw mewn tystiolaeth i'r awdurdodau yn y wladwriaeth arall.[23]

2.26 Nid oes dyletswydd ar unrhyw Awdurdod Lleol yng Nghymru i gytuno i baratoi adroddiad o'r fath na rhoi unrhyw wybodaeth. Fodd bynnag, rhaid i Awdurdodau Lleol arfer disgresiwn rhesymol ac ni allant wrthod paratoi adroddiadau o'r fath yn gyffredinol.

2.27 Os bydd Awdurdod Lleol yn cytuno i'r cais hwn, gall gasglu gwybodaeth am addasrwydd y rhiant i gael cyswllt â'r plentyn ynghyd â gwybodaeth am unrhyw amodau y byddai'n briodol yn ei farn ef i'r llys tramor eu gosod. Rhaid i'r llys neu'r awdurdod sy'n delio â'r cais am gyswllt yng ngwladwriaeth gartref y plentyn ystyried adroddiad yr awdurdod lleol cyn gwneud penderfyniad.

2.28 Gall Awdurdod Lleol godi ffi 'resymol' am ddarparu'r gwasanaeth hwn, sef tâl sydd mor agos â phosibl i gostau gwirioneddol y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth hwnnw, yn cynnwys costau anuniongyrchol (er enghraifft cyfran o'r argostau). Bydd angen i Awdurdodau Lleol gynnwys eu cynllun codi tâl, os oes ganddynt gynllun o'r fath, fel rhan o'u polisi ar ddarparu'r gwasanaeth hwn.

2.29 Gall Awdurdod Lleol ddarparu gwasanaeth dan yr Erthygl hon trwy is-gontractio'r gwaith i asiantaeth arall.

[23] Erthygl 35

**Cyflwyno adroddiad mewn achos cyswllt**

Mae M ac F wedi ysgaru ac mae ganddynt blentyn naw oed, sef Georgie. Mae M yn byw gyda’r plentyn yn y Swistir, mae F yn byw yng Nghaerdydd. Mae Georgie yn treulio’i gwyliau ysgol gydag F yng Nghaerdydd dan delerau gorchymyn cyswllt y Swistir.

Mae M yn gwneud cais i newid y gorchymyn cyswllt ar ôl i Georgie ddweud wrthi fod partner newydd F a’i phlant yn byw yn nhŷ F a’u bod yn anghyfeillgar tuag ati ac yn ei bwlio. Nid yw am ymweld â nhw mwyach.

Mae F yn gofyn i’w Awdurdod Lleol roi adroddiad i’r llys yn y Swistir yn sôn am ei amgylchiadau gartref a’i allu i ddarparu cyswllt priodol i Georgie.

*Erthygl 35(2)*

## Adran 3: Cyngor ynghylch delio â cheisiadau gan wladwriaethau contractio eraill y tu allan i'r DU

3.1 Yn yr un modd ag y gall Awdurdodau Lleol yng Nghymru ofyn am fathau penodol o help neu wybodaeth gan wladwriaethau contractio eraill, gall gwladwriaethau contractio eraill ofyn am help tebyg gan Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Mae'r adran hon yn rhoi cyngor ynghylch delio â cheisiadau o'r fath.

### Delio â chais am adroddiad/gwybodaeth yn ymwneud â sefyllfa plentyn

**Gwybodaeth y gwna Awdurdod Lleol gais amdani**

Menyw ifanc o Wrecsam yw Callie, ac mae ganddi iechyd meddwl gwael ac anabledd dysgu. Roedd ei phlentyn cyntaf, David, yn destun achos gofal fel baban a chafodd ei gymryd oddi ar Callie a'i roi i'w fabwysiadu. Mae Callie yn feichiog eto ac mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal cynhadledd amddiffyn plant cyn geni.

Mae Callie a'i phartner yn symud i Sbaen er mwyn atal yr awdurdod lleol rhag dechrau achos gofal a chymryd y baban newydd oddi arni ar ôl iddo gael ei eni.

Mae'r awdurdodau yn Sbaen yn poeni am les y baban ac yn cysylltu ag Awdurdod Canolog Cymru am wybodaeth. Mae Awdurdod Canolog Cymru yn gofyn i wasanaethau cymdeithasol Wrecsam gysylltu ag awdurdodau Sbaen gyda manylion am hanes Callie fel rhiant a sut y gwnaeth ei hanawsterau arwain at gymryd David oddi arni.

*Erthygl 34*

3.2 Gall Awdurdod Cymwys mewn gwladwriaeth gontractio arall sy'n ystyried cymryd camau i amddiffyn plentyn ofyn i Awdurdod Lleol am wybodaeth ynglŷn â'r plentyn hwnnw, ni waeth ble mae'r plentyn yn preswylio fel arfer.[24] Rhaid i'r mathau hyn o geisiadau fynd trwy Awdurdod Canolog Cymru.

3.3 Os yw plentyn yn preswylio fel arfer yng Nghymru ac os yw'n bresennol yng Nghymru, gall

[24] Erthygl 34

awdurdod mewn gwladwriaeth gontractio arall y mae cyswllt sylweddol rhyngddo a’r plentyn ofyn i Awdurdod Canolog Cymru baratoi adroddiad yn sôn am sefyllfa’r plentyn. Gall yr Awdurdod Canolog drosglwyddo’r cais i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a/neu Ymddiriedolaethau’r GIG yng Nghymru fel y bo’r angen, os bydd o’r farn fod hynny’n briodol.


3.3 Rhaid i’r cyrff hyn gyflwyno adroddiad cyn gynted ag y bo hynny’n rhesymol ymarferol.[25] Mae’r Rheoliadau gweithredu[26] ar gyfer y Confensiwn yn caniatáu i’r cyrff hyn roi gwybodaeth berthnasol yn gyfreithlon, ar yr amod na fyddai gwneud hynny’n rhoi’r plentyn na’i eiddo mewn perygl, nac yn peryglu bywyd na rhyddid aelod o deulu’r plentyn.[27] Ceir rhagor o gyngor ynghylch rhannu gwybodaeth yn yr adran Holi ac Ateb ar dudalen 27.

3.5 Ni cheir unrhyw fformat penodedig ar gyfer gwneud y ceisiadau hyn. Efallai y bydd llythyr yn ddigon, neu os oes angen adroddiad manylach, byddai fformat tebyg i’r hyn a ddefnyddir i ymateb i geisiadau Llys am adroddiadau dan a7 (adroddiad lles) neu a37 (cyfarwyddyd Llys i ymchwilio i amgylchiadau plentyn ac ystyried a ddylid gwneud cais am orchymyn gofal neu orchymyn goruchwylio) o Ddeddf Plant 1989 yn briodol. Bydd gan Awdurdodau Lleol fformatau ar gyfer yr adroddiadau hyn ar eu systemau cofnodi electronig eisoes.

3.6 O dro i dro, gellir gofyn am wybodaeth o’r fath trwy CAFCASS Cymru – er enghraifft, mewn sefyllfaoedd lle mae CAFCASS Cymru wedi ymwneud â’r plentyn neu’r teulu mewn achos llys arall.

[25] Rheoliad 12(5)
[26] Rheoliadau Cyfrifoldeb Rhieni a Mesurau Amddiffyn Plant (Rhwymedigaethau Rhyngwladol) (Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon) 2010
[27] Erthygl 37

## Siart 5 - Delio â chais am adroddiad/gwybodaeth ynglŷn â sefyllfa plentyn



**Delio â chais i drosglwyddo awdurdodaeth plentyn i awdurdod mewn gwladwriaeth gontractio arall**

3.7 Gall awdurdod mewn Gwladwriaeth Gontractio arall geisio trosglwyddo awdurdodaeth plentyn os yw'n credu ei fod mewn sefyllfa well i asesu budd pennaf y plentyn.[28]

3.8 Bydd angen i'r wladwriaeth gontractio arall wneud cais i'r Uchel Lys i drosglwyddo awdurdodaeth, oni bai bod y plentyn eisoes yn destun achos llys ac, os felly, bydd angen i'r llys sy'n delio â'r mater drosglwyddo'r cais i'r Uchel Lys er mwyn ystyried a ddylid rhoi caniatâd i drosglwyddo awdurdodaeth.[29] Fel Awdurdod Canolog, byddai Cymru yn gwneud popeth sy'n rhesymol bosibl i helpu yn hyn o beth. Ymhellach, gall unrhyw barti wneud cais i drosglwyddo awdurdodaeth mewn achos gofal (Erthygl 8(1)).

**Delio â chais gan wladwriaeth arall i blentyn gael ei roi mewn gofal maeth neu ofal preswyl yn ardal yr Awdurdod Lleol**

3.9 Dim ond os yw'r awdurdod cymwys wedi cytuno i'r lleoliad y gall awdurdod mewn gwladwriaeth gontractio arall roi plentyn mewn gofal maeth neu leoliad preswyl yng Nghymru.[30]

3.10 Mae'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i leoli plentyn, yn cynnwys lleoliadau dan drefniant kafala, pan fo awdurdod gwladwriaeth arall yn gyfrifol. Nid yw'n berthnasol i leoliadau mabwysiadu a reolir gan Gonfensiwn yr Hag 1993 ar Fabwysiadu Trawswladol.

3.11 Fodd bynnag, mewn sawl achos, ni fydd y plentyn yn destun unrhyw achos yma. Rhaid i'r awdurdod yn y wladwriaeth gontractio roi adroddiad i'r Awdurdod Lleol yng Nghymru yn ymwneud â'r plentyn ac yn nodi'r rhesymau dros ystyried y lleoliad. Rhaid i'r Awdurdod Lleol asesu'r lleoliad a phenderfynu a yw er budd pennaf y plentyn. Os bydd yr Awdurdod Lleol yn cytuno i'r lleoliad, dylid pennu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer derbyn y plentyn i'r DU a'i leoli. Dylai'r ddau awdurdod gytuno ar bwy sy'n gyfrifol am fonitro'r lleoliad.

3.12 Dylai'r Awdurdod Lleol bennu a yw strwythur cyfreithiol y lleoliad yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r gofalwr. Os nad yw'n gwneud hynny, ni waeth pa gytundeb fydd rhwng yr awdurdodau, yr Awdurdod Lleol fydd yn gyfrifol am fonitro'r lleoliad fel trefniant maethu preifat dan a66 o Ddeddf Plant 1989.

3.13 Os bydd y plentyn yn destun unrhyw achos llys yng Nghymru a Lloegr, y llys yw'r awdurdod cymwys a ddylai wneud y penderfyniad, a bydd yn trefnu gwrandawiad cyfarwyddo i ystyried y cais.[31]

[28] *Erthygl 9*
[29] *Rheolau Trefniadaeth Teulu 12.66*
[30] *Erthygl 33*
[31] *Rheolau Trefniadaeth Teulu 12.69*

**Cais i ddod o hyd i blentyn y credir ei fod yn ardal yr Awdurdod Lleol.**

3.14 Os bydd awdurdod mewn gwladwriaeth gontractio o'r farn fod angen i blentyn gael ei amddiffyn a bod y plentyn hwnnw wedi'i gymryd o'i ardal a'i symud i Gymru, gall ofyn am gymorth gan Awdurdod Canolog Cymru[32] i ddod o hyd i'r plentyn hwnnw. Yna, gall Awdurdod Canolog Cymru drosglwyddo'r cais hwn i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a/neu Ymddiriedolaethau'r GIG fel bo'r angen. Mae Siart 6 yn nodi'r broses a argymhellir ar gyfer delio â'r ceisiadau hyn.

3.15 Mae gan Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ddyletswydd i helpu gyda'r ceisiadau hyn. Yn achos Awdurdodau Lleol, awgrymir y dylid dechrau trwy ddilyn gweithdrefn arferol yr Awdurdod Lleol ar gyfer dod o hyd i blentyn sydd ar goll o ofal neu addysg. Os na lwyddir i ddod o hyd i'r plentyn ar ôl chwilio trwy gronfeydd data perthnasol, gall Awdurdodau Lleol benderfynu pa lefel o wiriadau pellach sy'n gymesur â'r ffactorau risg a nodir gan yr awdurdod a wnaeth y cais.

3.16 Os daw cyfeiriad ar gyfer y plentyn i'r amlwg, dylai'r Awdurdod Lleol ystyried a fydd datgelu'r wybodaeth hon yn peri risg o niwed i'r plentyn neu ei deulu, neu a fydd yn drosedd neu'n ddirmyg llys. Os felly, gellir gwrthod datgelu gwybodaeth. Mewn achosion dirmyg llys, os bydd yr Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r plentyn yn elwa pe bai gwybodaeth yn cael ei datgelu, rhaid iddo gael caniatâd y llys i wneud hynny.


3.16 O ran Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG, awgrymir y gall Gwarcheidwad Caldicott y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth y GIG fod yn awyddus yn gyntaf i gadarnhau a yw'r plentyn wedi'i restru ar y system leol ar gyfer Iechyd Plant Cymunedol (CCH200). Os nodir bod y plentyn yn y cyffiniau, dylai'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth y GIG gael gafael ar unrhyw wybodaeth bellach am y plentyn hwnnw – sef gwybodaeth sy'n briodol i ymateb i'r cais a wneir. Efallai y bydd Gwarcheidwad Caldicott yn awyddus i gysylltu â'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth lleol i gael cyngor ac arweiniad fel rhan o'r broses asesu.

3.18 Ym mhob achos, os bydd yna risg sylweddol o niwed i blentyn, ac os ceir rheswm dilys dros gredu bod y plentyn yn y cyffiniau, bydd angen rhannu gwybodaeth â gweithwyr proffesiynol eraill, yn cynnwys asiantaethau cymunedol a gwirfoddol, er mwyn diogelu'r plentyn hwnnw.

---

[32] Erthygl 31(c)

## Siart 6 - Cais i ddod o hyd i blentyn y credir ei fod yn ardal yr Awdurdod Lleol



**Gofyn i'r Awdurdod Lleol ystyried cymryd camau i amddiffyn plentyn sydd fel arfer yn byw yn ardal yr Awdurdod Lleol.**

3.19 Os bydd Awdurdod Canolog neu awdurdod arall mewn gwladwriaeth gontractio y tu allan i'r DU yn pryderu am les plentyn sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n bresennol yng Nghymru, gall ofyn i'r Awdurdod Lleol perthnasol gymryd camau i amddiffyn y plentyn hwnnw. Dylid cyflwyno'r cais i Awdurdod Canolog Cymru a dylid nodi rhesymau ategol. Yna, gall Awdurdod Canolog Cymru drosglwyddo'r cais i'r Awdurdod Lleol.[33] Nid oes yn rhaid i'r Awdurdod Lleol gymryd unrhyw gamau penodol, ond rhaid iddo ystyried a oes angen rhoi mesurau amddiffyn ar waith. Os bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu rhoi mesurau amddiffyn ar waith, bydd yn gwneud hynny dan ei weithdrefnau amddiffyn plant arferol, a gall ofyn i'r awdurdod arall am wybodaeth ategol bellach dan Erthygl 34.

[33] Erthygl 32(b)

## Adran 4: Holi ac Ateb

### Beth yw ystyr 'man preswylio arferol'?

Mae natur y dyletswyddau a'r trefniadau a nodir yn y Confensiwn yn dibynnu ar ble mae'r plentyn yn 'preswylio fel arfer'. Fel rheol, y wladwriaeth y mae'r plentyn yn preswylio ynddi fel arfer yw'r wladwriaeth sydd ag awdurdodaeth drosto a'r pŵer i wneud penderfyniadau hirdymor ynglŷn â'i les. Felly, mae pennu ble mae'r plentyn yn preswylio fel arfer yn gam pwysig wrth asesu ei sefyllfa.

Ceir cyfraith achosion helaeth yn ymwneud ag ystyr 'preswylio fel arfer'. I grynhoi:

a) Y 'man preswylio arferol' yw'r lle sy'n adlewyrchu peth integreiddio rhwng y plentyn ac amgylchedd cymdeithasol neu deuluol.
b) Cwestiwn o ffaith yw hyn, ac mae'n dibynnu ar yr amgylchiadau sy'n berthnasol i fywyd y plentyn. Nid yw'n dibynnu ar gyfnod preswylio penodedig mewn gwladwriaeth. Mae ffactorau sy'n berthnasol i fan preswylio arferol y plentyn yn cynnwys:

    - Hyd arhosiad y plentyn yn y wladwriaeth berthnasol, ynghyd â'r amodau a'r rhesymau dros ei arhosiad.
    - Cenedligrwydd y plentyn.
    - Lleoliad yr ysgol ac amodau mynychu'r ysgol.
    - Gwybodaeth ieithyddol.
    - Perthnasoedd teuluol a chymdeithasol y plentyn yn y wladwriaeth honno.
    - Pa mor sefydlog yw sefyllfa'r plentyn.
    - Man preswylio arferol rhieni/prif ofalwyr y plentyn (er, gall man preswylio arferol y plentyn fod yn wahanol i fan preswylio arferol ei rieni)
    - Yn achos pant hŷn/y glasoed, eu canfyddiad nhw eu hunain o'u man preswylio arferol.

c) Mae hi'n anarferol iawn (ond yn bosibl) i blentyn fod heb unrhyw fan preswylio arferol.

Os nad yw'n glir ble mae plentyn yn preswylio fel arfer, dylid cael cyngor cyfreithiol. Os na ellir pennu ble mae'r plentyn yn preswylio fel arfer, y wladwriaeth y mae'r plentyn yn bresennol ynddi fydd ag awdurdodaeth drosto.[34] Fodd bynnag, rhaid delio ag unrhyw faterion yn ymwneud ag awdurdodaeth ar gychwyn cyntaf unrhyw achos gofal, ac efallai y bydd yn rhaid i'r llys benderfynu a yw plentyn yn preswylio fel arfer yng Nghymru a Lloegr ar sail tystiolaeth y partïon.

Mewn achosion pan gaiff plentyn ei symud ar gam o Wladwriaeth Gontractio ei fan preswylio arferol neu ei gadw draw ar gam o Wladwriaeth Gontractio ei fan preswylio arferol, gan dorri hawliau gwarchodaeth rhiant/gofalwr, gall y wladwriaeth honno barhau i fod â phrif awdurdodaeth mewn rhai amgylchiadau (Erthygl 7 o Gonfensiwn yr Hag 1996).

### Cyfrifoldeb Rhiant

Yn ôl Erthygl 1 o'r Confensiwn, mae a wnelo cyfrifoldeb rhiant ag awdurdod rhiant neu unrhyw berthynas awdurdodol debyg sy'n pennu hawliau, pwerau a chyfrifoldebau rhieni, gwarcheidwaid neu gynrychiolwyr cyfreithiol eraill yng nghyswllt y plentyn.

[34] Erthygl 6

Ar ôl i'r cyfrifoldeb rhiant gael ei bennu mewn un wlad, bydd y sawl sydd â'r cyfrifoldeb hwnnw yn parhau i feddu arno ar ôl symud i wladwriaeth wahanol, ond dim ond o dan gyfraith y wladwriaeth y mae'r plentyn yn preswylio ynddi fel arfer ar y pryd y gellir caniatáu cyfrifoldeb rhiant pellach.

Mae Gwarcheidiaeth Arbennig yn fath penodol o gyfrifoldeb rhiant sy'n drech na'r hyn sydd gan rieni neu bobl eraill â chyfrifoldeb rhiant. Nid yw, o angenrheidrwydd, yn rhywbeth sy'n hawdd ei ddeall na'i atgynhyrchu mewn gwladwriaethau eraill, felly dylid cymryd gofal i egluro ystyr y cyfrifoldeb rhiant sydd gan warcheidwaid arbennig.

**A yw rhannu gwybodaeth dan y Confensiwn yn peri risg o dorri'r Ddeddf Diogelu Data?**

Pan fo gan Awdurdod Lleol neu Awdurdod Canolog y ddyletswydd neu'r pŵer i roi gwybodaeth, mae'r Rheoliadau sy'n ategu'r Confensiwn yn sicrhau y bydd yn gwneud hynny'n gyfreithlon ac na fydd felly yn torri'r Ddeddf Diogelu Data.

Wrth ystyried a ddylid gofyn am wybodaeth neu anfon gwybodaeth, rhaid i Awdurdodau Lleol weithredu dan Erthygl 37 o'r Confensiwn. Mae'r erthygl hon yn nodi na ddylid gofyn am wybodaeth na rhoi gwybodaeth pe bai hynny'n rhoi'r plentyn neu ei eiddo mewn perygl, neu'n bygwth bywyd neu ryddid aelod o deulu'r plentyn.[35]

Ni fydd yn rhaid rhoi gwybodaeth pe bai gwneud hynny'n gyfystyr â chyflawni trosedd neu ddirmyg llys. Os yw hyn yn peri pryder, dylid cael cyngor cyfreithiol.[36] Mewn achosion dirmyg llys, os bydd yr Awdurdod Lleol o'r farn y byddai datgelu gwybodaeth o fudd i'r plentyn, rhaid iddo gael caniatâd y llys i wneud hynny.

**Pa wledydd sydd wedi rhoi Confensiwn yr Hag 1996 ar waith?**

Ceir rhestr o wledydd a'u sefyllfa bresennol o ran y Confensiwn ar wefan yr Hag yma.
Ar y rhestr hon, dim ond y Gwladwriaethau hynny sydd wedi 'Rhoi mewn Grym' (EIF) sy'n gweithredu'r Confensiwn.

**Ym mha iaith y dylai Awdurdodau Lleol gyfathrebu â gwladwriaethau eraill?**

Dylai'r cyfathrebu rhwng Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ar y naill law, ac awdurdodau mewn gwladwriaethau contractio eraill ar y llaw arall, ddigwydd yn y Saesneg, ac os oes modd dylid anfon cyfieithiad o'r ohebiaeth yn un o ieithoedd swyddogol y wladwriaeth arall. Gall Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg ar yr amod eu bod yn cyfathrebu trwy Awdurdod Canolog Cymru.

Os na fydd hi'n ymarferol darparu cyfieithiad, gellir cyfathrebu yn y Saesneg oni bai bod y wladwriaeth arall wedi cyflwyno cymal cadw rhag defnyddio'r Saesneg. Gellir cadarnhau hyn trwy edrych ar y cymalau cadw a nodir yn y tabl statws ar wefan yr Hag: *http://www.hcch.net/index_en.php?act=conventions.authorities&cid=70*.

Os yw gwlad wedi cyflwyno cymal cadw rhag defnyddio'r Saesneg, rhaid cyfathrebu yn iaith y wlad honno neu yn y Ffrangeg. Ar ôl cael cadarnhad, bydd y DU yn datgan ei bod yn

[35] Erthygl 37
[36] Rheoliadau 10(6), 11(5) a 12(6)

gwrthwynebu'r arfer o ddefnyddio'r Ffrangeg mewn gohebiaethau gan awdurdodau Gwladwriaethau Contractio eraill.[37]

**A oes yn rhaid i Awdurdod Lleol gydnabod gorchymyn amddiffyn plant a osodwyd mewn gwladwriaeth gontractio?**

Mae'r Confensiwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau pob gwladwriaeth gontractio wneud y canlynol:

1) cydnabod camau a gymerir mewn gwladwriaethau contractio eraill[38]

2) derbyn unrhyw ganfyddiadau ffeithiol a wneir gan awdurdod mewn gwladwriaeth gontractio arall[39]

3) cofrestru a gorfodi gorchymyn a wneir mewn gwladwriaeth gontractio arall fel pe bai wedi cael ei wneud yn ei wladwriaeth ei hun.[40]

Yn ôl y Confensiwn, rhaid i bob gwladwriaeth gontractio gydnabod unrhyw orchmynion neu fesurau eraill sydd ar waith ym mhob gwladwriaeth gontractio arall o ran cyfrifoldeb rhiant ac amddiffyn plant.[41]

Gall unrhyw un sydd â buddiant yn achos y plentyn wneud cais i'r Uchel Lys i gydnabod neu beidio â chydnabod gorchymyn a wnaed mewn gwladwriaeth gontractio arall. Caniateir peidio â chydnabod gorchymyn mewn rhai achosion – er enghraifft, lle cafwyd gorchymyn heb i'r plentyn neu rywun â chyfrifoldeb rhiant gael cyfle i wneud sylwadau yn ei gylch. Os bydd angen i Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am blentyn wneud cais i gydnabod gorchymyn a roddwyd gan lys yng Nghymru a Lloegr mewn gwladwriaeth arall, neu i gydnabod neu beidio â chydnabod gorchymyn gwladwriaeth arall yn y llys, dylid cael cyngor cyfreithiol.

Wrth ystyried a ddylid cydnabod gorchymyn, bydd y llys yn rhwym wrth unrhyw ganfyddiadau ffeithiol a wnaed yn y wladwriaeth wreiddiol, felly ni all yr Awdurdod Lleol wneud cais i beidio â chydnabod gorchymyn ar sail y ffaith fod ei asesiad o sefyllfa'r plentyn yn groes i asesiad gwladwriaeth arall.

Dan Erthygl 24 o'r Confensiwn, gall unrhyw barti â buddiant wneud cais i'r Uchel Lys am orchymyn i gofrestru, cydnabod neu beidio â chydnabod dyfarniad a wnaed mewn Aelod-wladwriaeth arall.

Ymhellach, gall parti â buddiant wneud cais i'r Uchel Lys yn gofyn i orchymyn a wnaed mewn gwladwriaeth arall fod yn orfodadwy gan awdurdodau Cymru.[42]

[37] Erthygl 54
[38] Erthygl 23
[39] Erthygl 25
[40] Erthyglau 26 a 28
[41] Erthygl 23
[42] Rheoliad 8, Rheolau Trefniadaeth teulu Rhan 12 – dylid cadarnhau â'r adran gyfreithiol

**Cydnabod gorchmynion gwladwriaeth arall**

Bachgen 10 oed o'r Wcráin yw Dmitro, a chyrhaeddodd Gymru yn ddiweddar gyda'i fam Elena. Yn sgil pryderon am iechyd meddwl Elena, gwnaed ymholiadau dan adran 47. Gan ddefnyddio'r Confensiwn, mae'r Awdurdod Lleol yn cysylltu â'r awdurdodau yn yr Wcráin ac yn darganfod bod gorchymyn llys ar waith yno sy'n cyfateb i orchymyn gofal. Cafodd y gorchymyn ei roi o ganlyniad i ymddygiad anrhagweladwy Elena, a oedd yn cynnwys bygwth niweidio Dmitro. Dan y gorchymyn, rhoddwyd Dmitro mewn cartref plant ac aeth Elena ag ef oddi yno'n anghyfreithlon.

Mae ymarferydd iechyd meddwl Elena yng Nghymru wedi newid meddyginiaeth Elena ac mae'n llunio asesiad sy'n nodi y bydd Eleni yn gallu gofalu'n ddiogel am Dmitro cyn belled ag y bydd yn parhau i gymryd ei meddyginiaeth.

Er nad yw'r Awdurdod Lleol yn credu bod Elena yn fygythiad i Dmitro bellach ac nad oes unrhyw reswm dros wahanu mam a mab, mae'n rhwym wrth ganfyddiadau ffeithiol llys yr Wrcáin a rhaid iddo gydnabod a gorfodi gorchymyn gofal yr Wcráin.

**Beth ddylai Awdurdod Lleol ei wneud os nad yw'r wlad y mae'r plentyn wedi mynd iddi yn gweithredu o dan Gonfensiwn yr Hag 1996?**

Dim ond i Gonfensiwn yr Hag 1996 y mae'r gweithdrefnau a'r rhwymedigaethau a nodir yn y canllawiau hyn yn berthnasol. Pan fo materion amddiffyn plant i'w cael â gwledydd nad ydynt yn gweithredu dan y Confensiwn, dylid cael cymorth gan sefydliadau fel CFAB ac FCO ynglŷn â sut i fwrw ymlaen.

## Ffynonellau gwybodaeth eraill

### Awdurdod Canolog Cymru

Llywodraeth Cymru
Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: WalesCAHague1996@gov.wales

### Gwefan Cynhadledd yr Hag

Mae gwefan Cynhadledd yr Hag yn rhoi manylion am holl Gonfensiynau'r Hag, yn cynnwys testun llawn pob Confensiwn, crynodebau defnyddiol a thabl statws sy'n nodi'r gwladwriaethau contractio.

**Asiantaethau eraill sy'n cynnig cyngor ymarferol**

**Yr Uned Gyswllt a Herwgydio Plant yn Rhyngwladol (ICACU)**

Central Authority for England and Wales
Official Solicitor
81 Chancery Lane
London
WC2A 1DD
DX 0012 London Chancery Lane
Ffôn: 00 44 (0)20 7911 7045/7047
ICACU@offsol.gsi.gov.uk
Ffacs: 00 44 (0)207 911 7248

**Children and Families Across Borders (CFAB)**

CFAB yw cangen y DU o'r rhwydwaith Gwasanaethau Cymdeithasol Rhyngwladol (ISS). Mae ISS yn hwyluso'r gwaith o gyfnewid gwasanaethau gwaith cymdeithasol yn effeithiol rhwng gwledydd. Mae ei brif feysydd gwaith yn cynnwys llinell gyngor rad ac am ddim, amddiffyn plant, plant mewn gofal, maethu preifat, masnachu mewn plant, herwgydio plant, anghydfodau ynghylch cyswllt ac achosion caniatâd i symud.

Manylion cyswllt:
CFAB
Victoria Charity Centre,
11 Belgrave Road,
London
SW1V 1RB
Llinell gyngor: 020 7735 8941
E-bost: info@cfab.uk.net
Gwefan: http://cfab.org.uk/about

**Africans Unite Against Child Abuse (AFRUCA)**

Gyda swyddfeydd yn Llundain a Manceinion, mae AFRUCA yn hyrwyddo lles plant Affricanaidd yn y DU. Mae hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn Affrica ac Ewrop.

Manylion cyswllt:
AFRUCA
Unit 3D/F Leroy House
436 Essex Road
London
N1 3QP
United Kingdom
Ffôn: 0844 660 8607
Gwefan: http://www.afruca.org/

**NSPCC Cymru**

Mae'r NSPCC yn cynnig ystod eang o wasanaethau a help a chyngor i sefydliadau sy'n

gweithio i amddiffyn plant rhag niwed.

Manylion cyswllt:
Ffôn: 020 7825 2775
E-bost: info@nspcc.org.uk
Gwefan:
http://www.nspcc.org.uk/help-and-advice/for-organisations-and-professionals/information-services/information-services-hub_wdh76806.html

**Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso**

Lluniwyd Gweithdrefnau Diogelu Cymru er mwyn galluogi ymarferwyr rheng flaen a'u rheolwyr i roi disgwyliadau a gofynion deddfwriaethol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith. Y nod yw gwella 'canlyniadau sy'n canolbwyntio ar unigolion' ar gyfer oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso a phlant mewn perygl. Ymhellach, mae'r gweithdrefnau'n cydnabod deddfwriaethau, canllawiau a phrotocolau eraill. Er enghraifft Deddf Cam-drin Domestig (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)) 2015.

Gwefan: https://diogelu.cymru/index.html

**Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO)**

Mae'r FCDO yn gweithio gartref a dramor i sicrhau diogelwch cenedlaethol Prydain a helpu Prydain i ffynnu, yn ogystal â chynorthwyo dinasyddion Prydeinig dramor.

Manylion cyswllt
Gwefan: https://www.gov.uk/government/organisations/foreign-commonwealth-office